PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2B

RÔL CLERC Y TRIBIWNLYS

Cyflwyniad

1. Rôl gyffredinol clerc y tribiwnlys yw darparu cefnogaeth dechnegol a gweinyddol i'r Tribiwnlys/Panel Apêl.

Yn ystod y gwrandawiad

2. Dylai clerc y tribiwnlys:

   - Gynghori'r Tribiwnlys/Panel Apêl ar

   (a) gwestiynau cyfreithiol
   (b) arfer a gweithdrefn
   (c) unrhyw benderfyniad perthnasol gan y llysoedd uwch ac/neu'r tribiwnlysoedd

   - gymryd nodiadau o dystiolaeth a chyflwyniadau'r partïon yn y gwrandawiad
   - gofyn cwestiynau i'r partïon/tystion am eglurhad o'r dystiolaeth yn unig

Ar ddiwedd y gwrandawiad

3. Fel rheol, gwahoddir clerc y tribiwnlys i ymddeol gyda'r Tribiwnlys/Panel Apêl.

4. Os bydd clerc y tribiwnlys, yn ystod trafodaethau yn yr ystafell ymddeol, yn rhoi cyngor sylweddol i'r Tribiwnlys/Panel Apêl na chodwyd yn flaenorol yn ystod y gwrandawiad, bydd angen ailymgynnull i alluogi'r cyngor hwnnw i gael ei brofi ym mhresenoldeb y partïon ac iddynt gael cyfle i wneud sylwadau.

5. Mae'n ddyletswydd ar y cadeirydd i sicrhau bod clerc y tribiwnlys yn cael ei hysbysu o ymresymiad y Tribiwnlys/Panel Apêl fel y gellir drafftio'r penderfyniad ysgrifenedig llawn ar ei ran. Gall clerc y tribiwnlys hefyd gynorthwyo'r cadeirydd gyda geiriad unrhyw gyhoeddiad sydd i'w gyfleu i'r partïon.

6. Lle nad oes ystafell ymddeol ar wahân, gall y Tribiwnlys/Panel Apêl ofyn i bartïon ac aelodau'r cyhoedd adael yr ystafell wrandawiad tra mae'n ymgynghori .

7. Pan fo'r Tribiwnlys/Panel Apêl wedi penderfynu cynnal archwiliad safle, bydd clerc y tribiwnlys yn mynd gyda hwy.

Penderfyniad

8. Mae clerc y tribiwnlys yn gyfrifol am gofnodi rhesymau'r Tribiwnlys/Panel Apêl a drafftio'r penderfyniad i'w gymeradwyo neu ei newid gan y cadeirydd.

9. Dylai clercod y tribiwnlys sicrhau bod y drafft yn cofnodi canfyddiadau ffeithiol a chyfraith a wnaed gan y Tribiwnlys/Panel Apêl yn gywir.